**2025**
**LOST AND FOUND**
**cte.org.uk/educationsunday2025**

# Addoliad ar y cyd ar gyfer ysgolion uwchradd - Coll a chanfuwyd

## Darllenwch Luc 15:1-10

[1] Roedd y dynion oedd yn casglu trethi i Rufain a phobl eraill oedd yn cael eu hystyried yn ‵bechaduriaid‵ yn casglu o gwmpas Iesu i wrando arno. [2] Ond roedd y Phariseaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith yn cwyno a mwmblan, “Mae'r dyn yma'n rhoi croeso i bobl sy'n ‵bechaduriaid‵! Mae hyd yn oed yn bwyta gyda nhw!”

[3] Felly dyma Iesu'n dweud y stori yma wrthyn nhw: [4] “Dychmygwch fod gan un ohonoch chi gant o ddefaid, a bod un ohonyn nhw wedi mynd ar goll. Oni fyddai'n gadael y naw deg naw ar y tir agored ac yn mynd i chwilio am y ddafad aeth ar goll nes dod o hyd iddi? [5] A phan mae'n dod o hyd iddi mae mor llawen! Mae'n ei chodi ar ei ysgwyddau [6] ac yn mynd adre. Wedyn mae'n galw'i ffrindiau a'i gymdogion draw, ac yn dweud wrthyn nhw, ‘Dewch i ddathlu; dw i wedi dod o hyd i'r ddafad oedd wedi mynd ar goll.’ [7] Wir i chi, dyna sut mae hi yn y nefoedd – mae mwy o ddathlu am fod un pechadur wedi troi at Dduw nag am naw deg naw o bobl sy'n meddwl eu bod nhw'n iawn a dim angen newid!

[8] “Neu petai gan ryw wraig ddeg darn arian, ac yn colli un ohonyn nhw. Byddai hi'n cynnau lamp ac yn mynd ati i lanhau'r tŷ i gyd, a chwilio ym mhob twll a chornel am y darn arian nes iddi ddod o hyd iddo. [9] Pan mae'n dod o hyd iddo, mae'n galw'i ffrindiau a'i chymdogion draw, ac yn dweud wrthyn nhw, ‘Dewch i ddathlu; dw i wedi dod o hyd i'r darn arian oedd wedi mynd ar goll.’ [10] Wir i chi, dyna sut mae Duw yn dathlu o flaen ei angylion pan mae un pechadur yn troi ato!”

“Mae'r dyn yma'n rhoi croeso i bobl sy'n ‵bechaduriaid‵! Mae hyd yn oed yn bwyta gyda nhw!”

Pan clywon ni’r Pharisead a’r athrawon y gyfraith, a oedd yn aml yn wrthwynebwyr Iesu, yn dweud y geiriau yma iddo yn y darlleniad heddiw, roedden nhw’n ei feirniadu. Roedd Iesu wedi bod yn cyfarfod a pechaduriaid ac alltudion, y fath bobl sydd, yn eu barn nhw, y byddai’n well eu hosgoi. Efallai eu fod nhw’n gasglwyr trethi a oedd yn gweithio i’r Rhufeiniaid cas, efallai eu fod nhw wedi dweud neu gwneud rhywbeth i wneud bobl yn flin, efallai eu fod wedi torri’r rheolau. Ond dyma Iesu yn eistedd i lawr i bwyta gyda nhw! Roedd e’n treulio amser gyda’r math anghywir o bobl, ac

roedd ei feirniaid eisiau iddo stopio. Byddent wedi bod yn well ganddynt pe bai Iesu wedi anwybyddu'r alltudion, neu wedi eu ceryddu a'u hanfon ar eu ffordd.

Atebodd Iesu eu feirniadau wrth dweud dwy dameg iddyn nhw, straeon ag ystyron cudd, dyfnach. Yn y ddau dameg, mae yna rhywbeth ar goll tan fod yn dod o hyd iddo.

Rydyn ni gyd yn gwybod sut teimlad sydd i colli rhywbeth sy'n bwysig iddyn ni. Y foment o banig pan sylweddolwch nad yw lle roeddech chi'n disgwyl iddo fod. Rydych chi'n mynd yn ôl ar eich camau yn chwilio amdano, rydych chi'n gofyn i bobl a ydyn nhw wedi'i weld. (Rhowch esiamplau neu gofynnwch i'r disgyblion am syniadau.)

Yn y dameg gyntaf, mae Iesu yn gofyn i'r bobl oedd yn gwrando i dychmygu ei fod yn bugail gyda cant o ddafad, ond fod un ar goll. Mae nhw'n gadael y 99 er mwyn ffeindio'r un sydd ar goll. Pan fyddan nhw'n dod o hyd iddo, byddan nhw wrth eu bodd eu bod nhw'n ei gario'n ôl i weddill y praidd, yn dweud wrth eu ffrindiau a'u chymdogion amdano ac felly gall pawb lawenhau gyda'i gilydd.

Yn yr ail dameg, mae fenyw sy'n colli un darn o arian yn edrych ymhob man amdano tan eu fod yn dod o hyd iddo. Mae'r fenyw hefyd yn dweud wrth eu ffrindiau a'u chymdogion, ac yn llawenhau ei fod hi wedi dod o hyd i'r peth y maent wedi colli.

Falle mae hyn yn ymddangos fel ymddygiad rhyfedd! Pam mae'r bobl yma yn dathlu cymaint dros un dafad a dim ond un darn o arian? (A beth am gweddill y defaid, beth fydd wedi digwydd os oedd gweddill y defaid wedi crwydro wrth i fugail edrych am yr un dafad colledig? Dydw i ddim yn gwybod, efallai roedd y ci defaid yn edrych ar ei hol...) Mae'r straeon ddim mewn wirionedd yn trafod defaid neu arian, mae nhw mewn gwirionedd yn trafod pobl. Roedd Iesu yn ymateb y bobl oedd yn beirniadu fe nid wrth gwadu ei fod wedi eistedd i lawr gyda pechaduriaid ac alltudion, neu wrth anwybyddu'r pechodoldeb yr alltudion a esgus ei fod yn iawn. Ei ateb, trwy'r ddau dameg, oedd i ddangos ei fod yn adnabod fod y bobl yma "ar goll", ond roedd hyn yn meddwl fod eisiau ffeindio nhw, nod fod angen gwrthod nhw. Mae teimlo ar goll yn un or teimladau fwyaf wael sydd.

Am Cristnogion, sydd yn credu fod Iesu yw mab Duw a fod popeth mae e wedi dweud yn wir, mae'r damhegion yma yn dangos calon ac awydd Duw fod neb yn mynd ar goll. Dywedodd Iesu fod hyd yn oed un person pechadurus sydd yn edifarhau ac sydd yn flin yn achosi dathliad yn y nefoedd.

Felly, y rheswm dros y ddau dameg y mae Iesu yn rhannu onid yw'r hapusrwydd sy'n dilyn o rywbeth yn cael ei ddarganfod. Ond y pwysigrwydd o wneud yn siŵr i ddod o hyd i bawb, ar hapusrwydd sydd yn dilyn. Y wers ar gyfer y bobl oedd wedi beirniadu Iesu oedd os oedd rhywun ar goll, mae'n waith pawb i ddod o hyd iddyn nhw.